Prif Swyddog Fferyllol
Chief Pharmaceutical Officer

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Nick Ramsay AC
Cadeirydd
Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

Ein Cyf: AE

30 Hydref 2017


Annwyl Mr Ramsay

**Gwybodaeth am y dyddiad y disgwylir i'r system Trawsgrifio Meddyginiaethau ac e-Ryddhau gael ei chyflwyno ledled Cymru**

Yn ystod sesiwn dystiolaeth y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ar 16 Hydref, euthum ati i ddarparu manylion i'r Pwyllgor am y dyddiad y disgwylir i'r system Trawsgrifio Meddyginiaethau ac e-Ryddhau gael ei chyflwyno ledled Cymru. Mae'r system yn cael ei chyflwyno mewn partneriaeth rhwng Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru a phob bwrdd iechyd ac Ymddiriedolaeth GIG Felindre.

Hyd yma, mae'r gwaith o gyflwyno'r system wedi dechrau mewn pum bwrdd iechyd (Betsi Cadwaladr, Caerdydd a'r Fro, Cwm Taf, Hywel Dda a Phowys). Mae cynlluniau ar y gweill hefyd ar gyfer ei chyflwyno yng Nghanolfan Ganser Felindre. Yn y ddau fwrdd iechyd arall (Abertawe Bro Morgannwg ac Aneurin Bevan), mae trefniadau e-ryddhau lleol a fodolai eisoes ar waith. Mae crynodeb llawn o'r sefyllfa o ran cyflwyno'r system, sy'n cael ei ddarparu gan Wasanaeth Gwybodeg GIG Cymru, wedi'i gynnwys gyda'r llythyr hwn.

Yn gywir



**Andrew Evans**
Chief Pharmaceutical Officer/Prif Swyddog Fferyllol
Llywodraeth Cymru/Welsh Government

Dogfennau yn amgaeedig

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

Parc Cathays ● Cathays Park
Caerdydd ● Cardiff
CF10 3NQ

Ffôn ● Tel : 029 2082 5260
Ffacs/Fax: 029 2082 5116
Andrew.Evans@wales.gsi.gov.uk
Gwefan ● website: www.wales.gov.uk

| Sefydliad | Y Sefyllfa Bresennol | Dyddiad y disgwylir cwblhau |
|---|---|---|
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg | Disgwylir i'r cynllun peilot gael ei roi ar waith ddechrau 2018 | I'w gadarnhau |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan | Heb ddechrau | I'w gadarnhau |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr | 37.5% o wardiau wedi'u cwblhau ar draws tri safle | Mehefin 2019 |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro | Cam 1 wedi'i gwblhau<br>Cam 2 (13 o wardiau) 31% wedi'i gwblhau<br>Cam 3 (Iechyd Meddwl) heb ddechrau | I'w gadarnhau |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf | 85% wedi'i gwblhau | Hydref 2017 |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda | 16% wedi'i gwblhau | I'w gadarnhau |
| Bwrdd Iechyd Addysgu Powys | 21% wedi'i gwblhau | Tachwedd 2017 |
| Ymddiriedolaeth GIG Felindre | Gwaith ymgysylltu a chynllunio cychwynnol ar y gweill | Mawrth 2018 |